

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL YR HEDDLU, TROSEDDU, DEDFRYDU A'R LLYSOEDD

1. Yn dilyn Etholiadau'r Senedd yn ddiweddar, mae memorandwm cydsyniad deddfwriaethol newydd yn cael ei osod. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mawrth 2021. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2839/publications>

Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwneud y wlad yn fwy diogel drwy rymuso'r heddlu a'r llysoedd i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn troseddau ac arwain system gyfiawnder deg. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad penodol i: ddiogelu a grymuso'r heddlu drwy ymgorffori Cyfamod yr Heddlu mewn cyfraith; pasio'r Bil; a chyflwyno gorchymyn llys newydd i dargedu'r sawl y mae'n hysbys eu bod yn cario cyllyll, gan ei gwneud yn haws i swyddogion stopio a chwilio'r rhai hynny a euogfarnwyd o droseddau cyllyll.
4. O ran y llysoedd a dedfrydu, mae'r Bil yn cynnwys ymrwymadau i: rymuso'r llysoedd i fynd i'r afael â throseddau; sicrhau system gyfiawnder deg drwy gyflwyno dedfrydau llymach i'r troseddau gwaethaf a rhoi terfyn ar ryddhau troseddau yn awtomatig o'r carchar hanner ffordd drwy eu dedfryd am droseddau difrifol. Mae hefyd yn ceisio cryfhau dedfrydau cymunedol, er enghraifft drwy gryfhau cyrffiw, gwneud i'r rhai hynny a euogfarnwyd i ymgymryd â mwy o oriau o wneud iawn â'r gymuned, gwneud i bobl gefnu ar droseddau a thorri'r cylch aildroseddau.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth;
 - i'r heddlu a gweithwyr y gwasanaethau brys eraill i wneud darpariaeth ynghylch cydweithio rhwng awdurdodau i atal a lleihau trais difrifol;
 - i wneud darpariaeth ar gyfer troseddau newydd ac ar gyfer addasu troseddau presennol;

- i wneud darpariaeth ynghylch pwerau'r heddlu ac awdurdodau eraill at ddibenion atal, canfod ac ymchwilio i droseddau neu eu herlyn neu ar gyfer ymchwilio i faterion eraill;
- i wneud darpariaeth ynghylch cynnal y drefn gyhoeddus;
- i wneud darpariaeth ynghylch symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau; i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau gyrru;
- i wneud darpariaeth ynghylch rhybuddiadau;
- i wneud darpariaeth ynghylch rhoi mechnïaeth a remandio;
- i wneud darpariaeth ynghylch dedfrydu, cadw, rhyddhau, rheoli ac adsefydlu troseddwyr;
- i wneud darpariaeth ynghylch Academiâu 16 i 19 diogel;
- i wneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd, ac mewn perthynas â hwy; ac at ddibenion cysylltiedig.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:

- Rhan 1 Amddiffyn yr Heddlu, Cymal 1 - **'Police Covenant'** Mae'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyfamod yr Heddlu a'i gyflwyno i Senedd y DU. Gall yr adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y cyfamod ymwneud â materion sydd wedi eu datganoli i Gymru megis gwasanaethau iechyd.
- Rhan 2, Pennod 1 –Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol - **'Serious Violence Duty'**

Cymal 7 ('Duties to collaborate and plan to prevent and reduce serious violence'). Mae'n ofynnol i awdurdodau penodedig ar gyfer ardal llywodraeth leol gydweithio â'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Llunio a gweithredu strategaeth ar gyfer arfer eu swyddogaethau i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal.

Mae cymal 8 ('Powers to collaborate and plan to prevent and reduce serious violence') yn rhoi'r pŵer i ddau neu ragor o awdurdodau penodedig i gydweithio â'i gilydd ac arfer swyddogaethau ar y cyd i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal berthnasol. Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ar gyfer cyhoeddi strategaeth a'i rhannu, neu mewn perthynas â hyn, o dan yr adran hon.

Mae cymal 9 ('Power to authorise collaboration etc. with other persons') yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliad i roi pwerau i awdurdod penodedig i gydweithio â pherson rhagnodedig i atal a lleihau trais difrifol mewn ardal rhagnodedig. Mae hefyd yn rhoi pwerau i berson rhagnodedig i gydweithio ag awdurdod penodedig i atal a lleihau trais difrifol mewn ardal rhagnodedig.

Mae cymal 10 ('Specified authorities and local government areas') yn diffinio ystyr awdurdod penodedig, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae cymal 11 ('Educational, prison and youth custody authorities') yn diffinio at ddibenion y Bil yr hyn a olygir gan awdurdod addysgol, carchar a chadw ieuenctid.

Mae cymal 12 ('Preventing and reducing serious violence') yn egluro yr hyn a olygir gan 'preventing' a 'reducing serious violence in an area', fel atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol yn yr ardal, a lleihau achosion o drais difrifol yn yr ardal.

Mae cymal 13 ('Involvement of local policing bodies') yn rhoi pŵer i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau i gynorthwyo awdurdod penodedig i arfer swyddogaethau'r awdurdod. Mae hyn yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gwneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer ardal heddlu at ddibenion cynorthwyo awdurdod penodedig i gyflawni ei swyddogaethau. Mae awdurdod penodedig o dan ddyletswydd i gydweithredu â Chomisiynydd Heddlu a Throseddau.

Mae cymal 14 ('Involvement of educational, prison and youth custody authorities') yn rhoi pŵer i awdurdod perthnasol sy'n cynnwys awdurdod addysgol, carchar, neu ddalfa ieuenctid ar gyfer ardal llywodraeth leol neu ardal berthnasol ac awdurdod penodedig i gydweithio â'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal honno.

Mae cymal 15 ('Disclosure of information') yn rhoi pŵer i awdurdod penodedig; corff plismona lleol; awdurdod addysgol; awdurdod carchar; awdurdod dalfa ieuenctid, i ddatgelu gwybodaeth sydd ganddo at ddibenion ei swyddogaethau i berson arall, a restrwyd yn flaenorol, at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon, neu'n unol â hi, gan y person arall.

Mae cymal 16 ('Supply of information to local policing bodies') yn galluogi corff plismona lleol i ofyn am wybodaeth i gynorthwyo gyda'i swyddogaethau. Mae'r cymal yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ac Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau addysgol, i gydymffurfio â'r cais hwn yn amodol ar nifer o fesurau diogelu.

Mae cymal 17 ('Directions') yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd i awdurdod penodedig fel y rhestrir uchod. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon i awdurdod Datganoledig Cymreig o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae cymal 18 ('Guidance') yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau yn unol â'r bennod hon. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gan awdurdod datganoledig Cymreig o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae cymal 19 ('Amendments to the Crime and Disorder Act 1998') –

Yn diwygio adran 5A o'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn fel bod atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol a lleihau achosion o drais difrifol yn sail i awdurdodau plismona lleol ymrwymo i gytundebau cyfun. Dim ond os yw pob awdurdod cyfrifol mewn perthynas â'r ardal honno yn rhan o'r cytundeb y gellir gwneud cytundeb ar gyfer ardal gyfun.

Yn diwygio adran 6 ('formulation and implementation of strategies') i ganiatáu i awdurdod cyfrifol lunio strategaeth i atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol ac i leihau achosion o drais difrifol.

Yn diwygio adran 17 ('duty to consider crime and disorder implications') i fewnosod y ddyletswydd a osodir ar awdurdod i wneud popeth o fewn ei allu rhesymol i atal trais difrifol, atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol a lleihau achosion o drais difrifol yn ei ardaloedd.

Yn diwygio adran 18 ('interpretation of Chapter 1') i gynnwys dehongliad o "violence" a "serious violence".

Mae cymal 20 ('Amendment to the Police and Justice Act 2006') yn diwygio adran 19 (11) – 'local authority scrutiny of crime and disorder matters: interpretation', i gynnwys cyfeiriad at Drais Difrifol o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Cymal 21 ('Regulations') Gweithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y bennod hon sy'n gymwys i awdurdod datganoledig Cymreig o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymal 22 ('Index of defined expressions') Mae'r cymal hwn yn ymwneud â'r cymalau gweithredol. Nid yw hon yn ddarpariaeth o sylwedd ond mae'n rhyngweithio â darpariaethau o sylwedd.

- Rhan 2 Pennod 2 – 'Offensive Weapons Homicide Reviews' – **'Homicide Reviews'**

Mae cymal 23 ('Duty to arrange a review') yn cyflwyno dyletswydd ar bartneriaid diogelu lleol i asesu a yw marwolaeth person yn bodloni meini prawf penodol ar gyfer cynnal adolygiad o laddiad statudol annibynnol llawn ac i wneud trefniadau i gwblhau adolygiad o'r fath os bodlonir yr amodau.

Mae cymal 24 ('Relevant review partners') wedi'i ddiwygio wrth ei gyflwyno ac mae yn awr yn ychwanegu pŵer gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer nodi pa bartneriaid adolygu ddylai fod y partneriaid adolygu perthnasol mewn perthynas â marwolaeth person ac mae'n esbonio'r hyn y gall y rheoliadau ei gynnwys.

Mae cymal 25 ('Relationship with other review requirements') yn nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd adolygu yn gymwys, ac yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ragnodi nad yw'r ddyletswydd yn gymwys mewn rhai amgylchiadau penodol eraill.

Mae cymal 26 ('Notification of Secretary of State') yn creu gofynion hysbysu ar gyfer adolygiad o laddiad.

Mae cymal 27 ('Conduct of review') yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid adolygu lladdiadau perthnasol mewn perthynas â marwolaeth person gydweithredu yn y broses o gynnal adolygiad o laddiad a chyfrannu at y broses.

Mae cymal 28 ('Request for information') yn rhoi swyddogaeth i unrhyw bartner adolygu lladdiadau perthnasol i ofyn am wybodaeth ac yn creu dyletswydd i gydymffurfio â chais o'r fath am wybodaeth.

Cymal 29 ('Saving for data protection legislation') Newidiwyd hwn i 'Information: supplementary' wrth gyflwyno'r Bil. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer datgelu data personol.

Mae cymal 30 ('Delegating functions') yn rhoi pŵer i bartner adolygu lladdiadau perthnasol i benodi ar y cyd un ohonynt eu hunain, neu berson neu gorff arall i gynnal yr adolygiad o laddiad. Mae'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i alluogi partneriaid adolygu perthnasol i weithredu ar y cyd ac i gyngor sir a chyngor dosbarth i gytuno bod un yn cyflawni swyddogaethau ar ran y llall.

Mae cymal 31 ('Guidance') yn gosod dyletswydd ar bartneriaid adolygu lladdiadau i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r cymal wedi'i ddiwygio i gynnwys dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Mae cymal 32 ('Power to pay grant: *Local Health Boards*') (diwygiwyd y teitl wrth ei gyflwyno) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i dalu grant i fwrdd iechyd lleol yng Nghymru tuag at wariant yr aed iddo, neu yr eir iddo ganddo o dan y Bennod hon. Yr Ysgrifennydd Gwladol ddylai bennu swm y grant, yn ogystal â'r amodau ar gyfer ei dalu.

Mae cymal 33 ('Piloting') yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal cynlluniau peilot o adolygiadau o laddiadau.

Mae cymal 34 ('Regulations') yn nodi'r amodau er mwyn i reoliadau o dan y Bennod hon gael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.

Cymal 35 ('Interpretation') Diwygiwyd y rhestr ac mae yn awr yn cynnwys awdurdodau Cymeig datganoledig. Mae'r cymal wedi'i ddiwygio hefyd er mwyn cynnwys dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn ofynnol cyn gwneud rheoliadau i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdod datganoledig Cymreig.

- Rhan 3 'Public Order' - Cymal 59 – '**Intentionally or recklessly causing of Public Nuisance**'. Mae'n disodli'r trosedd y gyfraith gyffredin bresennol o niwsans cyhoeddus gyda throsedd statudol newydd fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith 'Simplification of the Criminal Law: Public Nuisance and Outraging Public Decency 2015'.

Mae cymal 54 yn diwygio adran 12 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sy'n bŵer i'r heddlu orfodi amodau ar orymdeithiau cyhoeddus. Mae'r Bil yn galluogi'r uwch-swyddog o'r heddlu yn y fan a'r lle i ystyried effeithiau sŵn yr orymdaith ac i orfodi amodau os yw'n brawychu pobl yn yr ardal gyfagos neu'n aflonyddu arnynt.

Mae cymal 55 yn diwygio adran 14 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 gyda phŵer i'r heddlu orfodi amodau ar gynulladau cyhoeddus (hyd yr amser, niferoedd etc) ac mae trosedd gysylltiedig os na chymdymffurfir â'r amodau. Bydd y Bil yn diwygio'r adran hon i alluogi i'r sŵn a gaiff ei greu gan bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad gael ei ystyried os y gall arwain at darfu difrifol o ran gweithgareddau sefydliad a gynhelir yn yr ardal gerllaw'r cynulliad.

Mae cymal 60 yn ymwneud â gwrthdystiadau gan un person ac mae'n debyg i gymalau 54 a 55 i'r perwyl ei fod yn diwygio adran 14 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 ac yn gorfodi amodau ac yn darparu fel y gall rheoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â gwrthdystiadau gan un person.

- Pennod 4 – 'Other Provisions', Cymal 46 [mem1] – '**Criminal damage to memorials**'. Mae'r cymal hwn yn newid y dull o gynnal achos ar gyfer y drosedd o ddifrod troseddol pan wneir difrod i gofeb. Ar hyn o bryd, dim ond yn y Llys Ynadon y gellir cynnal achosion ar gyfer difrod troseddol gwerth isel (o dan £5000). Byddai'r cymal hwn yn caniatáu i achosion o'r fath gael eu cynnal mewn Llys y Goron, lle gall difrod troseddol olygu hyd at 10 mlynedd o garchar (neu garchar am oes os oedd y diffynnydd yn bwriadu peryglu bywyd neu os oedd y ddi-hid yn hynny o beth). Y ddeddfryd fwyaf mewn Llys Ynadon fyddai 6 mis ar gyfer y troseddau hyn.

- Rhan 1 'Protection of the Police' – Cymal 2 [ew1] **'Increase in penalty for assault on emergency worker'**. Mae'n diwygio a. 1 o **Ddeddf Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) 2018**, gan gynyddu'r gosb o 12 mis i 2 flynedd.
- Cymal 61 – 'Unauthorised encampments' – **'Offence relating to residing on land without consent'** a chymalau cysylltiedig. Mae'n cryfhau pwerau'r heddlu i fynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod, gan ganiatáu iddynt atafaelu cerbydau lle nad yw'r rhai y gofynnwyd iddynt adael yn gwneud hynny.
- [ue1a] Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr ar dir – rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau i'r heddlu ynghylch swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus.
- [ue2] Amrywiol ddiwygiadau i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.
- Rhan 2 Pennod 3 **'Extraction of Information from Electronic Devices'**. Cymal 36 ('Extraction of information from electronic devices: investigations of crime etc'). Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer echdynnu data o ffonau symudol a dyfeisiau digidol gan berson awdurdodedig at ddibenion penodol, megis, atal, canfod ac erlyn troseddau ac ymchwilio iddynt.

Mae cymal 37 ('Application of section 36 to children and adults without capacity') yn darparu nad yw plentyn neu oedolyn sydd heb alluedd i'w drin fel un sy'n gallu darparu dyfais electronig neu gytuno i echdynnu gwybodaeth o'i wirfodd.

Mae cymal 40 ('Code of practice about the extraction of information') yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi cod ymarfer sy'n cynnwys canllawiau ynghylch arfer pwerau mewn perthynas ag echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau a marwolaethau.

Mae cymal 41 ('Regulations about the extraction of confidential information') yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch arfer pwerau sy'n gysylltiedig ag echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau a marwolaethau, mewn perthynas â gwybodaeth gyfrinachol.

Mae cymal 42 ('Authorised persons') yn nodi bod person awdurdodedig wedi'i ddiffinio yn Atodlen 3, yn amodol ar ddarpariaethau penodol yn y cymal.

8. Mae'r darpariaethau uchod wedi cael eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â

materion datganoledig sy'n gysylltiedig â Diogelu'r Amgylchedd, Tir, Tai, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Addysg a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Fodd bynnag, byddem yn argymhell na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad i rai o'r darpariaethau hyn fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd (gweler paragraffau 13, 14, 15, 16 ac 17 isod).

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

9. Mae llawer o'r Bil yn ymwneud ag achosion troseddol sy'n fater a gadwyd yn ôl (gweler paragraff 8 o Atodlen 7A). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel, yn gryf ac yn wydn. Rydym yn parhau i weithio gyda'n pedwar heddlu, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth y DU ac asiantaethau eraill i helpu i sicrhau bod ein pobl a'n cymunedau yn parhau'n ddiogel. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gydweithio ar draws sefydliadau. Bydd rhai cymalau yn y Bil yn cynorthwyo ymhellach i wneud ein cymunedau yn ddiogel ac i gryfhau'r berthynas gydweithio rhwng partneriaid. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar y Bil yn deddfu mewn perthynas â swyddogaethau polisi datganoledig sy'n cael effaith ar y System Cyfiawnder Troseddol.
10. Mae'r Bil yn cwmpasu meysydd eang yn y maes cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Ni fyddai'n gwneud synnwyr ceisio dadgyfuno'r cymharol ychydig o faterion datganoledig a'u datblygu drwy ddeddfwriaeth ar wahân, ac nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn yn unig. Nid oes bil ychwaith yn y rhaglen y gellid ychwanegu darpariaeth o'r fath ato.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil fel y'i cyflwynwyd

11. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r Bil ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Ceir pryderon hefyd ynghylch y darpariaethau yn y Bil ar gyfer Gwersylloedd Diawdurdod a'r elfen yn ymwneud â lleihau sŵn yn y cymalau ynghylch gwrthdystiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Drefn Gyhoeddus.
12. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Gyfamod yr Heddlu, y Ddyletswydd Trais Difrifol (cymalau 7,8,10-16 a 19-22), Adolygu Lladdiadau (cymalau 23-35), Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithwyr y gwasanaethau brys, Echdynnu Gwybodaeth o Ddyfeisiau Electronig (cymalau 36,37,40,41,43) a chymal 59 o Ran 3 'Public Order'. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru argymhell i'r Senedd ei bod yn cydsynio i'r Ddyletswydd Trais Difrifol (cymalau 9, 17 a 18), difrod troseddol i gofebau (cymal 46), gwersylloedd diawdurdod (cymal 61 (ue1a) (ue2)) na chymalau 54, 55 a 60 o'r rhan o'r

Bil sy'n ymwneud â'r Drefn Gyhoeddus fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd.

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn argymhell i Senedd Cymru na ddylai roi ei chydysyniad i'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd:
14. Pwerau'r **Ddyletswydd Trais Difrifol** i'r Ysgrifennydd Gwladol – cymal 9 ('Power to authorise collaboration etc. with other persons'), cymal 17 ('Directions'), cymal 18 ('Guidance'). Y pryder ynghylch y pwerau newydd hyn sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd at ddibenion gorfodi'r ddyletswydd trais difrifol yw y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol o bosibl roi cyfarwyddyd ar faterion sydd wedi eu datganoli sy'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau Cymreig datganoledig.
15. **Gwersylloedd Diawdurdod** ('Offence relating to residing on land without consent in or with a vehicle'), [ue1a] Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr ar dir ac [ue2] amrywiol ddiwygiadau i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994. Mae dull Llywodraeth Cymru o reoli gwersylloedd diawdurdod wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau a buddsoddi ar gyfer darpariaeth ddigonol o safleoedd awdurdodedig a galluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion llety (preswyl a chludiant) cymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cael blaenoriaeth unwaith yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol sydd ar fin ymddangos, sy'n cynnwys nod penodol o fynd i'r afael yn well ag anghenion llety'r cymunedau hyn. Mae'r cymalau arfaethedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn canolbwyntio ar orfodi a throeddoli, sy'n tansilio ac yn peryglu'r ffordd o fyw led-nomadaidd sydd gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr nad oes ganddynt o bosibl unrhyw le addas i osod eu cerbydau.
16. **Y Drefn Gyhoeddus** - cymal 54 ('Imposing conditions on public processions'), cymal 55 ('Imposing conditions on public assemblies') a chymal 60 ('Imposing conditions on one-person protests'). Er bod y drefn gyhoeddus yn fater a gedwir yn ôl, mae'r elfennau sŵn yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi'r cymal mewn perthynas â diogelu trigolion rhag cynnydd mewn llygredd sŵn, fodd bynnag cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hwn. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r heddlu mewn perthynas â lefelau sŵn, mae ganddi'r cyfrifoldeb cyffredinol dros leihau sŵn ac mae'n gyfrifol am gyfarwyddo awdurdodau lleol ar y mater hwn. Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi'i diffinio'n glir ac felly mae'n anodd asesu ei goblygiadau ar gyfrifoldebau awdurdodau Cymreig datganoledig.
17. **Difrod troseddol i gofebau:** y dull o gynnal achos, cymal 46. Er bod dedfrydu a llysoedd yn fater a gadwyd yn ôl, mae henebion, cofebau a

diwylliant wedi'u datganoli. Rydym o'r farn fod creu'r posibilrwydd bod unigolyn yn cael ei roi gerbron Llys y Goron ac yn cael ei garcharu am hyd at 10 mlynedd (neu am oes, os oedd y diffynnydd yn bwriadu peryglu bywyd neu os oedd yn ddi-hid yn hynny o beth) am ddifrod troseddol gwerth llai na £5000 yn anghymesur. Mae'r cymal hwn yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â difrod troseddol i gofebau sydd, yn ein barn ni, o fewn cymhwysedd Senedd Cymru (a allai greu trosedd sy'n cwmpasu'r un ymddygiad, ac wrth wneud hynny, bennu uchafswm y ddedfryd o garchar a'r dull o gynnal achos ar gyfer y drosedd honno).

18. Bydd gwaith i ddatrys y pryderon hyn sy'n weddill yn parhau yn ystod hynt y Bil drwy Senedd y DU a chaiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ei gyflwyno ar yr adeg briodol, os bydd yn ofynnol.

Goblygiadau ariannol

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn.

Casgliad

20. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â rhai o ddarpariaethau'r Bil hwn gan y bydd yn gwneud newidiadau synhwyrol a phwysig i'r system cyfiawnder troseddol a'i gwasanaethau, a fydd o fudd i bobl a chymunedau Cymru o ran gwella eu diogelwch. Ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell y dylid rhoi cydsyniad i'r cymalau a nodwyd ym mharagraffau 14, 15, 16 ac 17 oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'n pryderon.

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Mai 2021